

Map ffordd ar gyfer Gweithgaredd i'r Dyfodol

Paratowyd gan Melian Dialogue

i

Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru



**Cyngor Archifau a  
Chofnodion Cymru**  
**Archives and Records  
Council Wales**



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

## Cynnwys

<b>Map ffordd ar gyfer Gweithgaredd i'r Dyfodol .....</b>	<b>3</b>
<b>1.1 Ymchwil arolwg o weithwyr proffesiynol a defnyddwyr ethnig lleiafrifol y sector.....</b>	<b>3</b>
1.1.2 Arolwg o brofiad proffesiynol gweithwyr .....	3
1.1.3 Arolwg ar brofiad bywyd defnyddwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig .....	3
<b>1.2 Defnyddio'r fethodoleg arolygu casgliadau .....</b>	<b>3</b>
<b>1.3 Cynhadledd gydweithredol ar amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector diwylliannol .....</b>	<b>3</b>
<b>1.4 Defnyddio'r presenoldeb presennol ar y cyfryngau cymdeithasol i'r eithaf neu greu presenoldeb newydd.....</b>	<b>4</b>
1.4.1 Hyfforddiant ar reoli'r cyfryngau cymdeithasol .....	4
1.4.2 Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol .....	4
<b>1.5 Pecyn cyfathrebu ar gyfer partneriaethau academiaidd .....</b>	<b>5</b>
<b>1.6 Prosiectau cymunedol.....</b>	<b>5</b>
<b>1.7 Gweithgareddau caffael cymunedol.....</b>	<b>5</b>

## Map ffordd ar gyfer Gweithgaredd i'r Dyfodol

### 1.1 Ymchwil arolwg o weithwyr proffesiynol a defnyddwyr ethnig lleiafrifol y sector

#### 1.1.2 Arolwg o brofiad proffesiynol gweithwyr

Rydym yn argymhell arolwg o'r sector cyfan sy'n targedu gwahanol agweddau ar amrywiaeth ethnig mewn sefydliadau diwylliannol yng Nghymru, gan gynnwys amrywiaeth sefydliadol ac amrywiaeth yn y casgliadau a'r arferion. Dylai'r arolwg ofyn cwestiynau am addysg a bywyd proffesiynol ac am faterion yn ymwneud â chasgliadau megis gwerthuso, disgrifiad a mynediad/defnydd. Yr ymatebwyr i'r arolwg hwn fyddai'r rhai sy'n gweithio mewn/gyda sefydliadau diwylliannol yng Nghymru mewn amrywiol rolau a swyddi megis gweinyddu, bod yn gyfrifol am gasgliadau, ymchwil, gweithrediadau, ymgynghori, arferion creadigol a gwirfoddoli. Byddai'r arolwg hwn yn egluro sut mae gweithwyr a gwirfoddolwyr yn ystyried amrywiaeth ethnig eu sefydliad, ei gasgliadau a'i arferion cysylltiedig. Mae angen i arweinyddiaeth bwysleisio ac ennyn cyfranogaeth yr holl weithwyr mewn arolwg o'r fath er mwyn cael dealltwriaeth drylwyr o broblemau, bylchau mewn gwybodaeth a'r arferion gorau. Bydd yn rhoi golwg ar i ba raddau y mae cymunedau Asiaidd Du a Lleiafrifoedd Ethnig eisoes yn cyfrannu at ddatblygu a rhannu deunyddiau sy'n datgelu profiad bywyd cymunedau sydd ar y cyrion neu nad oes ganddynt gynrychiolaeth deg yn y tirweddau treftadaeth hyn. Gweler Atodiad D. Banc Cwestiynau ym Methodoleg yr Arolwg am gwestiynau a argymhellir ar gyfer Arolwg o Staff y Sector Diwylliannol.

#### 1.1.3 Arolwg ar brofiad bywyd defnyddwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Rydym hefyd yn argymhell cynnal ail arolwg ar yr un pryd, gyda sampl o'r ymatebwyr o gynulleidfaoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig y sector. Nod yr holiadur hwn fyddai deall dynameg disgwyliadau ymgysylltu, o fynediad i gasgliadau a'u hygyrchedd i dderbyniad a pherthnasedd casgliadau i brofiadau bywyd defnyddwyr ethnig lleiafrifol. Dylai'r arolwg gael ei ddsbarthu drwy ganolfannau cymunedol effeithiol a dibynadwy megis ysgolion prif ffrwd, sefydliadau addysg uwch, ysgolion diwylliannol a chanolfannau diwylliannol. Ceir ym mhoblogaeth lleiafrifoedd ethnig Cymru amrywiaeth eang o brofiadau bywyd. Mae angen i'r arolwg wahaniaethu rhwng profiadau amrywiol genedlaethau, hanesion a llwybrau defnyddwyr ethnig lleiafrifol sefydliadau diwylliannol yng Nghymru. Er enghraifft, dylai'r arolwg gategoreiddio gwahanol brofiadau plant ysgol yr ail genhedlaeth sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel ail neu drydedd iaith a mewnfudwyr neu eu dibynyddion hyn nad ydynt o bosibl yn rhugl yn yr ieithoedd lleol. Dylai'r canfyddiadau o'r arolwg hwn gael eu cyhoeddi fel adroddiad i'w ddefnyddio gan sefydliadau i ddeall safbwyntiau a disgwyliadau defnyddwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ynglŷn â'u casgliadau.

### 1.2 Defnyddio'r fethodoleg arolygu casgliadau

Fe all sefydliadau o bob maint a math yn sector diwylliannol Cymru ystyried y fethodoleg arolygu a geir yn y pecyn hwn ac adeiladu arni er mwyn datblygu ac adolygu eu harferion ar gyfer arolygu casgliadau am ddeunydd sy'n berthnasol i bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Gellir annog i'r fethodoleg arolygu hon gael ei defnyddio drwy gyfrwng gweithdai sy'n astudio ac yn dehongli'r fethodoleg yn gynlluniau gweithredadwy ac sy'n cychwyn cydweithrediad ymysg sefydliadau â thimau casgliadau o sefydliadau penodol. Os caiff yr arolygon cenedlaethol a argymhellir uchod eu trefnu, y peth gorau fyddai gweithredu'r fethodoleg arolygu i olynu'r canfyddiadau o'r arolygon hyn er mwyn gallu gwneud yr addasiadau angenrheidiol i'r fethodoleg arolygu yn ddibynnol ar y wybodaeth a gafwyd.

### 1.3 Cynhadledd gydweithredol ar amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector diwylliannol

Gydol ein hymchwil, rydym wedi bod mewn cysylltiad ag amrywiol weithwyr proffesiynol yn y diwydiant ac wedi cael gwybodaeth a dealltwriaeth ganddynt ac rydym wedi cydnabod amrediad yr

heriau, y cyfyngiadau, y wybodaeth a'r arferion gorau ar draws y sector o safbwynt gweithredu egwyddorion cynhwysol a gwrth-wahaniaethol yn ein sefydliadau diwylliannol. Felly, rydym yn argymhell trefnu cynhadledd i'r sector cyfan i roi cyfle i sefydliadau diwylliannol gyfnewid syniadau.

Byddai'r digwyddiad hwn yn cynnwys gweithdai sy'n ymwneud â meysydd penodol sy'n peri pryder a'r cyfleoedd dysgu a amlygir yn y ddogfen hon. Byddai hefyd yn cynnwys panelau i gyflwyno canfyddiadau'r arolwg o weithwyr proffesiynol y sector diwylliannol a argymhellir uchod. Byddai cynrychiolwyr y sefydliadau diwylliannol, eu defnyddwyr a chynrychiolwyr cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru yn cael eu gwahodd i gyfrannu at y panelau gyda'u profiadau o'r sefydliadau hyn, eu hamgyffredion o'r hyn sy'n eu hatal rhag cael mynediad i'r casgliadau hyn neu gael eu cynrychioli ganddynt, eu barn am y prosiect presennol ac argymhellion i'r dyfodol.

Fe allai'r gynhadledd hefyd alw am gynigion ar gyfer prosiectau mewn sefydliadau neu ar draws y sector gan ddarparu plattform ar gyfer cyfleu'r syniadau hyn yn gyflym a rhoi adborth a all wella neu ehangu cwrpas y prosiectau hyn. Byddem yn argymhell bod y gwaith cynllunio ar gyfer y gynhadledd yn digwydd ar ôl cwblhau astudiaethau'r arolwg er mwyn sicrhau y gellir defnyddio canfyddiadau'r arolygon hyn yn y gwaith o drefnu'r digwyddiad.

I ddilyn y gynhadledd cynhelid trafodaeth ford gron â chynrychiolwyr sefydliadau i drafod y canfyddiadau, byddai cofnodion ysgrifenedig yn seiliedig ar bapurau'r panelau yn cael eu cynhyrchu, a byddai crynodeb gweithredol mwy hygrych o'r canfyddiadau yn cael ei ddsbarthu i'r sector.

#### **1.4 Defnyddio'r presenoldeb presennol ar y cyfryngau cymdeithasol i'r eithaf neu greu presenoldeb newydd**

Byddai sefydliadau yn elwa'n aruthrol o effeithlonrwydd a hygrychedd y cyfryngau cymdeithasol i gynnal cysylltiad cynaliadwy â chymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ynghyd â phob cymuned sy'n rhannu'r un diddordeb.

##### *1.4.1 Hyfforddiant ar reoli'r cyfryngau cymdeithasol*

Mae rheoli'r cyfryngau cymdeithasol yn elfen annatod o gysylltiadau cyhoeddus. Fe all sefydliadau ddefnyddio cynnwys sydd yn ei gyd-destun a chynnwys tymhorol i dynnu sylw at eu casgliadau a darparu senarios ymgysylltu sy'n atyniadol i bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Yn ddibynol ar yr adnoddau dynol ac ariannol, fe all sefydliadau elwa o hyfforddiant mewn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd os nad oes ganddynt rolau neu dimau un pwrpas sy'n delio â'u gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol.

##### *1.4.2 Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol*

Heddiw, mae llawer o sefydliadau diwylliannol yn elwa o gynnwys byrfyfyr neu yn arddull rhaglen ddogfen sy'n amlygu agweddau ar eu sefydliad nad ydynt o bosibl yn amlwg ar y safle neu ar eu gwefannau. Lle bo'r adnoddau angenrheidiol ar gael, mae eraill yn creu cynnwys hynod ddifyr sy'n cyflwyno eu casgliadau i gynulleidfa'r dydd sydd ohoni. Er enghraifft, mae'r Archifau Cenedlaethol yn rhannu fideos ar y plattform rhannu fideos TikTok am wahanol agweddau ar fywyd ym Mhrydain mewn amrywiol gyfnodau gan roi'r eitemau sydd yn eu casgliad yn eu cyd-destun drwy gymharu arferion ddoe a heddiw drwy naratif byr a chyffrous.

Fe ddylai'r cyfryngau cymdeithasol ddenu traffig i bwyntiau ar-lein eraill megis tudalennau hafan a phyrth chwilio sefydliadau fel bod y cynnwys ar y plattformau hyn yn gallu cyrraedd cynifer o ddefnyddwyr chwilfrydig â phosibl o Gymru ac o bob cwr o'r byd. Dylai sefydliadau hefyd fod yn cynnal sgysrsiau cyson ar-lein drwy hyrwyddo a chyfeirio pobl at gynnwys ei gilydd a chyfuno eu cynulleidfaoedd. Fe ddylai strategaethau o'r fath ymestyn cwrpas eu presenoldeb ar y cyfryngau

cymdeithasol a byddai'n rhoi mwy o gyfleoedd i ennyn diddordeb cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru.

Dyma rai esiamplau o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y sector diwylliannol sydd wedi cael sylw'n ddiweddar gan ddefnyddwyr y cyfryngau cymdeithasol:

Yr amgueddfa ar fywyd yn yr Ardal Ddu: <https://www.tiktok.com/@blackcountrylivingmuseum>

Cyfrif TikTok yr Archifau Gwladol: <https://www.tiktok.com/@uknatarchives>

Cyfrif Twitter yr Academi Gelf Frenhinol: <https://twitter.com/royalacademy>

### 1.5 Pecyn cyfathrebu ar gyfer partneriaethau academaidd

Mae partneriaethau academaidd yn gallu esgor ar nifer o fanteision i sefydliadau diwylliannol a phartneriaid academaidd. Fe all sefydliadau elwa o ddefnyddio arbenigedd academaidd i wella arferion eu sefydliad a chydweithredu â phartneriaid academaidd ar gynigion am gyllid. Ar y llaw arall, fe all ysgolwyr ddefnyddio deunydd sydd heb ei brosesu, canfod testunau arbenigol ac ehangu eu profiad o ymchwil.

Mae angen i sefydliadau diwylliannol ddatblygu neu dylid eu cynorthwyo â phecynnau cyfathrebu a chynlluniau prosiectau ar gyfer partneriaethau academaidd. Fe ddylai'r pecynnau cyfathrebu gynnwys gwybodaeth am ganfod a chysylltu â phartneriaid academaidd posibl drwy gynlluniau lleoliadau PhD, cydweithrediadau â grwpiau ymchwil, neu brosiectau ymchwil. Byddai'r pecyn hwn yn amlygu manteision cydweithrediadau ar gyfer ysgolorion a sefydliadau. Bydd y pecynnau cyfathrebu hyn yn elwa o restr drylwyr o adrannau a grwpiau ymchwil cysylltiedig ar draws Cymru ynghyd â gwybodaeth am restrau postio perthnasol, byrddau rhestru a phlatfformau lle gall gohebiaethau o'r fath gyrraedd yr unigolion priodol.

Fe ddylai cynlluniau prosiectau ar gyfer partneriaethau academaidd roi cyfarwyddyd i sefydliadau o amrywiol faint ac sydd ag amrywiol adnoddau ar sut i ysgrifennu briff prosiectau, sut i ddyrannu amser, adnoddau dynol ac ariannol i reoli'r prosiect, sut i gyfathrebu'n effeithiol ac yn gyson â phartneriaid academaidd a sut i gyflwyno, gweithredu a hyrwyddo canfyddiadau'r prosiect i gynulleidfa ehangach.

### 1.6 Prosiectau cymunedol

Fe all sefydliadau diwylliannol weithio ar wahodd syniadau am brosiectau cymunedol gan eu cymunedau ethnig lleiafrifol lleol. Gellir gwneud hyn drwy gyfrwng cynllun cylchdro drwy ddyrannu'r llefydd sydd ar gael ar gyfer ymweld ag archifau, trafodaethau, grwpiau darllen, arddangosfeydd, addysg ddiwylliannol a dosbarthiadau ymarfer celf sy'n berthnasol i ddiddordebau a chryfderau pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Fe all sefydliadau ymchwilio a chyfathrebu â'r ymarferwyr ethnig lleiafrifol presennol i hyrwyddo'r cynlluniau hyn a'u cadw'n hygyrch i bobl nad ydynt yn weithwyr proffesiynol drwy alwadau agored i'r gymuned.

Fe all sefydliadau hefyd gysylltu ag ysgolion i wahodd myfyrwyr am weithgareddau addysgol sy'n cael eu harwain gan aelodau cymunedau ethnig lleiafrifol, megis sesiynau lle caiff myfyrwyr eu cyflwyno i eitem mewn archif neu amgueddfa o safbwynt arbenigwyr ethnig lleiafrifol neu ddysgu am grefft neu am ffigur hanesyddol sy'n arwyddocaol i brofiadau grŵp o leiafrifoedd ethnig.

### 1.7 Gweithgareddau caffael cymunedol

Mae ymgorffori profiadau bywyd cymunedau pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn strategaeth effeithiol i sicrhau amrywiaeth casgliadau. Lle bo modd, cynghorir sefydliadau i ddechrau creu cynllun ar gyfer gweithgareddau caffael cymunedol gan wahodd cyfraniadau gan gymunedau lleol.

Gweler Achos 3 yn yr adran Astudiaethau Achos am brosiect enghreifftiol a gynhaliwyd gan Bafiliwn ac Amgueddfa Frenhinol Brighton mewn cydweithrediad â'r gymuned Affricanaidd yn Brighton. I leoliadau llai nad oes ganddynt gasgliadau, gall sefydliadau wahodd cymunedau i arddangos neu gyflwyno eu heitemau am gyfnod penodol neu yn ystod digwyddiad byr a dangos y wybodaeth a gasglwyd o'r cyfryw weithgareddau ar eu gwefannau neu'r cyfryngau cymdeithasol i ddangos cynrychiolaeth ehangach.